



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru

Cynigion ar gyfer Offerynnau Statudol o dan Ran IV o Ddeddf yr
Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Dyddiad cyhoeddi: 23 Medi 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Rhagfyr 2019

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Ymgynghoriad ar gyfer Cymru'n unig yw hwn, sy'n nodi cynigion ar gyfer offerynnau statudol (OSau) i ailgylchu mwy o wastraff o eiddo annomestig fel busnesau, cyrff y sector cyhoeddus a safleoedd eraill.

Caiff yr OSau eu dwyn ymlaen o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad yn para 12 wythnos, o 23 Medi tan 13 Rhagfyr. Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn gan ateb y cwestiynau yn Atodiad A y ddogfen hon:

drwy anfon e-bost at:

ResourceEfficiencyAndCircularEconomy@gov.wales

neu drwy lythyr at:

Yr Is-adran Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol

Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.

Eunomia Research and Consulting (2019) Effaith Rheoliadol Offerynnau Statudol
<https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft Llywodraeth Cymru (2019) - OSau i'w dwyn ger bron o dan Ran IV Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

ResourceEfficiencyAndCircularEconomy@gov.wales

Yr Is-adran Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Caerdydd
CF10 3NQ

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon yn unol â'u pwerau statudol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan contract y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i fynnu'n bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i ofyn inni 'ddileu' eich data;
- (o dan rai amgylchiadau) i ofyn inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r cynigion i ddwyn ger bron yr offerynnau statudol (OSau) ar gyfer ailgylchu mwy o wastraff eiddo annomestig fel busnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Caiff yr OSau eu dwyn ger bron o dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 a Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddio a Chosbau 2008 (mewn cysylltiad â chosbau sifil).

O dan yr OSau:

- bydd yn ofynnol i ddeiliaid eiddo annomestig (fel busnesau, elusennau a chyrrff sector cyhoeddus) roi deunyddiau ailgylchadwy penodol allan i'w casglu wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd ac wedi'u gwahanu oddi wrth wastraff arall;
- bydd yn ofynnol i'r rheini sy'n casglu'r deunyddiau eu casglu mewn casgliadau ar wahân a'u cadw ar wahân;
- gwaherddir llosgi a thirlenwi deunyddiau ailgylchadwy a gesglir ar wahân;
- cychwynnir gwahardd eiddo busnes rhag taflu gwastraff bwyd i garthffosydd;
- darperir cosbau sifil am droseddau sy'n gysylltiedig â'r gofynion uchod.

Y Cefndir

Targed Llywodraeth Cymru yw ailgylchu 70% o wastraff cartrefi a busnesau masnachol a diwydiannol erbyn 2025 a 90% o wastraff gweithgareddau adeiladu a dymchwel erbyn 2019/20.

Byddai taro'r targedau hyn yn cefnogi ymdrechion Cymru i fod yn economi gylchol, lle caiff adnoddau eu cadw i'w defnyddio mor hir â phosibl ac yr adenillir ac adfywir pob cynnyrch ar ddiwedd ei fywyd.

Daw hyn â manteision i'r economi, swyddi a'r amgylchedd a bydd yn:

- Arbed costau i fusnesau drwy osgoi'r dreth dirlenwi
- Gwneud busnesau'n fwy cystadleuol drwy leihau costau deunyddiau
- Creu swyddi yn y sector trin gwastraff
- Diogelu cyflenwadau adnoddau i'n sector gweithgynhyrchu
- Helpu i brysuru'r economi gylchol yng Nghymru drwy annog busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru i ddefnyddio deunyddiau eildro a gesglir yng Nghymru
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Lleihau llygredd yng Nghymru

Er mwyn sicrhau bod gwerth uchel iddynt fel adnodd, mae'n bwysig bod deunyddiau ailgylchadwy yn cael eu cadw ar wahân oddi wrth fathau eraill o wastraff, a hynny yn y tarddle. Bydd hynny'n cynnal y galw yn y farchnad am ddeunydd eildro uchel ei werth a'i ansawdd ac yn sbardun arall i ailgylchu mwy. Mae deunydd eildro o ansawdd uchel yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio i weithgynhyrchu na deunydd eildro o ansawdd is.

Trwy gynhyrchu deunydd eildro o ansawdd uchel yng Nghymru, bydd llai o ddeunyddiau'n debygol o gael eu hanfon dramor i'w trin.

Mae ailgylchu ac adfer deunyddiau o ansawdd uchel yn helpu hefyd i leihau'r gofid cynyddol ynghylch y galw cynyddol am adnoddau trwy'r byd. Trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon trwy atal gwastraff ac ailddefnyddio ac ailgylchu mwy, diogelir cyflenwadau deunyddiau a lleiheur y ddibyniaeth ar adnoddau crai (boed o'r DU neu du hwnt).

Mae camau breision wedi'u cymryd o ran ailgylchu yng Nghymru, yn enwedig o ran ailgylchu domestig. Ond o ran gwastraff o eiddo annomestig fel busnesau a'r sector cyhoeddus, mae llawer o ddeunyddiau ailgylchadwy'n cael eu taflu o hyd fel rhan o'r ffrwd wastraff gweddilliol neu'n cael eu cymysgu â deunyddiau ailgylchadwy eraill. Mae hyn yn lleihau gwerth y deunydd eildro, yn golygu bod llai'n cael ei gasglu ac nad yw'n ffynhonnell deunydd o ansawdd uchel ar gyfer diwydiant.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur (Gwastraff) Cymru 2010

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ar opsiynau ar gyfer ailgylchu gwastraff eiddo busnes yn well¹. Fel rhan o'r ymgynghoriad cynharach hwnnw, cynhaliodd y Llywodraeth broses gynhwysfawr i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gwnaed darpariaeth yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") i Weinidogion Cymru ddwyn cynigion ymlaen i:

- ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff (gan gynnwys y sector cyhoeddus) roi eu gwastraff allan wedi'i wahanu ar gyfer ei gasglu
- ei gwneud yn ofynnol casglu gwastraff busnes trwy gasgliadau ar wahân
- gwahardd llosgi rhai deunyddiau

Mae'r Ddeddf yn gwahardd taflu gwastraff bwyd masnachol i lawr carthffosydd (yn amodol ar Orchymyn Cychwyn).

Ategir y pwerau gan y pŵer sydd eisoes wedi'i roi i Weinidogion Cymru trwy Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 i wahardd anfon deunyddiau penodedig i safleoedd tirlenwi.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am y rheoliadau rydyn ni'n cynnig eu cyflwyno o dan o pwerau uchod.

Trosi Pecyn yr Undeb Ewropeaidd ar yr Economi Gylchol

Mae pecyn yr Undeb Ewropeaidd ar yr economi gylchol (CEP) wedi newid nifer o gyfarwyddebau allweddol Ewropeaidd eraill, gan gynnwys y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (2008/98/EC) a'r Gyfarwyddeb Tirlenwi (1999/31/EC).

¹"Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy" Llywodraeth Cymru 2013: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/170728-consultation-document-cy.pdf>

²"Crynodeb o Ymatebion - Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Cymru yn Gynaliadwy": Llywodraeth Cymru.2014 <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/rheoli-adnoddau-naturiol-crynodeb-o-ymatebion.pdf>

Rydym wrthi'n ymgynghori â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU ar drosi Pecyn yr UE ar yr Economi Gylchol (CEP)³. Ochr yn ochr â'r cydymgyngoriad, bydd yr ymgynghoriad hwn ar y Rheoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn llywio'r modd y bydd Llywodraeth Cymru'n trosi rhannau o'r CEP, sef y darpariaethau ynghylch casglu deunyddiau ailgylchadwy sych ar wahân a gwahardd ynni o'r gwastraff hwnnw (Erthyglau 10 ac 11 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff), casglu biowastraff ar wahân (Erthygl 22 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff) a gwahardd ei anfon i safleoedd tirlenwi (Erthygl 5 o'r Gyfarwyddeb Tirlenwi).

Yn ôl Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, sydd bellach wedi'i newid gan y CEP, mae gofyn i Aelod-wladwriaethau gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod gwastraff yn cael ei baratoi ar gyfer ei aildefnyddio, ei ailgylchu a'i adfer fel arall, yn unol â'r hierarchaeth wastraff. Er mwyn hwyluso hyn, mae gofyn casglu gwastraff mewn casgliadau ar wahân ac ni ddylid ei gymysgu â gwastraff arall na deunyddiau eraill sydd â rhinweddau gwahanol.

Hefyd, yn ôl Erthygl 11 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, mae gofyn i aelod-wladwriaethau annog ailgylchu o ansawdd uchel a threfnu casgliadau ar wahân ar gyfer o leiaf papur, metel, plastig a gwydr ac erbyn 1 Ionawr 2015, ar gyfer tecstilau. Yn ôl Erthygl 22, mae gofyn gwahanu biowastraff (fel bwyd) a'i ailgylchu yn ei darddle neu ei gasglu ar wahân heb ei gymysgu â mathau eraill o wastraff erbyn 23 Rhagfyr 2023.

Yn ôl Erthygl 5, mae'r Gyfarwyddeb Tirlenwi, sydd hefyd wedi'i newid gan y CEP, yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gymryd mesurau i sicrhau nad yw gwahanol fathau o wastraff sy'n cael eu casglu ar wahân yn cael eu hanfon i'w tirlenwi (heblaw gwastraff sy'n dod o drin y gwastraff hwnnw lle bo tirlenwi'n cynnig y canlyniad amgylcheddol gorau). Yn ogystal, erbyn 2030, ni chaiff gwastraff sy'n addas ar gyfer ei ailgylchu neu ei adfer mewn ffordd arall ei dderbyn mewn safle tirlenwi oni bai mai'r opsiwn amgylcheddol gorau yw tirlenwi.

Mae gofynion blaenorol Erthyglau 10 ac 11 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff wedi'u trosi'n ddeddfwriaeth ddomestig, sef y gofyn yn Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (fel y'u diwygiwyd)⁴ i'r rheini sy'n casglu gwastraff (er enghraifft, cwmnïau rheoli gwastraff ac Awdurdodau Lleol) ddarparu gwasanaethau ar wahân ar gyfer papur, metel, plastig a gwydr yn unol â'r profion angen a'r profion Ymarferoldeb Technegol, Amgylcheddol ac Economaidd (TEEP).

Fodd bynnag, nid yw'r gofynion hyn wedi arwain at nifer arwyddocaol yn fwy o fusnesau'n rhoi gwastraff ailgylchadwy allan nac at fwy o gasglwyr gwastraff yn cynnig y gwasanaethau hyn.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i gyflwyno pecyn mwy cynhwysfawr a haws ei orfodi o ddeddfwriaeth yn y maes yng Nghymru.

³ [Link i CEP](#)

⁴ Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/988/contents/made>
Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1889/regulation/2/made>

Tystiolaeth o blaid newid (RIA)

Dangosodd yr ymchwil ^{5,6,7} gafodd ei chynnal i ddatblygu'r Ddeddf bod diffyg yn y farchnad o ran gwasanaethau casglu gwastraff eiddo annomestig (fel busnesau a'r sector cyhoeddus) wedi'i wahanu yng Nghymru. Ystyriwyd felly yr opsiynau a phenderfynwyd mai'r cam mwyaf priodol fyddai cyflwyno pecyn o ddeddfwriaeth fyddai'n effeithio ar wahanol bwyntiau yn y gadwyn gyflenwi - y cwmni casglu gwastraff, cynhyrchydd y gwastraff a'r mannau gwaredu neu adfer terfynol gwahanol (tirlenwi ac ynni o wastraff).

Arweiniodd hyn at gyflwyno'r darpariaethau yn y Ddeddf a ddisgrifir uchod.

Er mwyn datblygu gofynion manylach ar gyfer yr OSau a ddaw o dan y Ddeddf a'u rhoi ar waith, rydym wedi comisiynu model ⁸sydd wedi ffurfio'r sylfaen ar gyfer Aseiad Effaith Rheoleiddiol⁹. Defnyddiwyd y model i ystyried costau a manteision nifer o opsiynau:

- Gwneud dim (y llinell sylfaen)
- Busnesau i wahanu deunyddiau ar lefel isel yn y tarddle; casgliadau ar wahân; gwahardd llosgi, tirlenwi a thafllu gwastraff bwyd i garthffosydd
- Busnesau i wahanu deunyddiau ar lefel gymedrol; casgliadau ar wahân; gwahardd llosgi, tirlenwi a thafllu gwastraff bwyd i garthffosydd
- Busnesau i wahanu deunyddiau ar lefel uchel; casgliadau ar wahân; gwahardd llosgi, tirlenwi a thafllu gwastraff bwyd i garthffosydd

Y deunyddiau a ystyriwyd i'w cynnwys yn y rheoliadau oedd papur, cerdyn, gwydr, plastig, metel, bwyd, tecstilau a chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (WEEE). Gwnaeth y model ystyried hefyd nifer o esemptiadau. Rydym wedi crynhoi isod yr esemptiadau rydym wedi'u hystyried, ar sail y model hwn.

⁵ *Eunomia Research & Consulting (2011) Options for the Segregation and Collection of Welsh I & C Waste, Report to the Welsh Government, (November 2011)*
<https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/131014options-for-segregation-of-industrial-and-construction-waste-en.pdf>

⁶ *Eunomia Research & Consulting (2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer (May 2013)*
<https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/131021additional-waste-policy-options-en.pdf>

⁷ *Eunomia Research & Consulting (2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending Waste Framework Directive requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer - Aggregated Outputs for Welsh Government White Paper (September 2013)*
<https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/131021additional-waste-policy-options-aggregated-outputs-en.pdf>

⁸ *Eunomia Research and Consulting (2019) Regulatory Impact of Statutory Instruments*
<https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

⁹ *Aseiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru (2019): Regulatory Impact of Options to Increase Business Recycling in Wales - Statutory instruments under Part IV of the Environment (Wales) Act 2016 and the Waste (Wales) Measure 2010* <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Mae'r model yn rhagweld y daw'r manteision amgylcheddol ac ariannol mwyaf o fabwysiadu lefel gymedrol o wahanu. Hwn felly yw'r opsiwn rydym yn ei ffafrio a'r opsiwn rydym yn ymgynghori arno.

Fe welwch fanylion costau a manteision yr opsiynau eraill yn yr RIA.

Beth sy'n cael ei gynnig?

Rydym ni'n cynnig cyflwyno deddfwriaeth i:

- ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid eiddo annomestig (fel busnesau, elusennau a chyrff sector cyhoeddus) roi deunyddiau ailgylchadwy penodol allan i'w casglu wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd ac wedi'u gwahanu oddi wrth wastraff arall;
- ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n casglu gwastraff o eiddo o'r fath (fel busnesau rheoli gwastraff neu Awdurdodau Lleol) i'w casglu ar wahân a'u cadw ar wahân;
- gwahardd anfon deunyddiau ailgylchadwy a gesglir ar wahân i'w llosgi a'u tirlenwi;
- cychwyn y gwaharddiad ar daflu gwastraff bwyd o eiddo busnes i garthffosydd.

Y deunyddiau ailgylchadwy fydd yn cael eu casglu ar wahân a'u gwahardd rhag eu llosgi a'u tirlenwi yw papur, cerdyn, plastig, gwydr, bwyd, tecstilau a chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (WEEE). Ni chaniateir mynd â gwastraff pren i'w dirlenwi.

Fel ymateb i'r farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar Fil yr Amgylchedd ac mewn trafodaethau wedi hynny â rhanddeiliaid, nid ydym bellach yn cynnig y dylai gwastraff pren gael ei roi allan ar gyfer ei gasglu, i'w gasglu ar wahân na'i wahardd rhag ei losgi. Y rheswm am hyn yw am ei bod yn anodd rheoli'r defnydd o wahanol raddfeydd o wastraff pren yn ôl manteision amgylcheddol ailgylchu gwastraff pren yn hytrach nag, er enghraifft, defnyddio gwastraff pren i adfer ynni.

Er hynny, rydym wedi ehangu'r deunyddiau i gynnwys tecstilau a WEEE bach. Mae gan decstilau ôl troed CO₂ (a'i gyfatebol) uchel a cheir gofyn i'w casglu ar wahân (erbyn 2025) yn unol â Phecyn yr UE ar yr EG a cheir metelau prin a gwerthfawr o bwys strategol o ran diogelu adnoddau mewn WEEE.

Beth fydd ei effaith?

Bydd gofyn i **gynhyrchwyr annomestig gwastraff** fel busnesau, y sector cyhoeddus ac elusennau roi'r ffrydiau gwastraff canlynol allan ar gyfer eu casglu:

- gwastraff bwyd o eiddo sy'n cynhyrchu mwy na 5kg/wythnos;
- papur, cerdyn;
- gwydr;
- metel, plastig;
- WEEE bychan;
- tecstilau.

Ni fydd y rheini sy'n taflu bwyd gwastraff i garthffosydd, fel busnesau lletygarwch a sefydliadau sector cyhoeddus, yn cael gwneud hynny mwyach a bydd yn rhaid iddynt roi'r bwyd allan ar gyfer ei gasglu ar wahân.

Bydd gofyn i **gasglwyr gwastraff**, fel cwmnïau rheoli gwastraff ac Awdurdodau Lleol, gasglu'r deunyddiau uchod o eiddo annomestig trwy gasgliadau ar wahân a'u hailgylchu yn hytrach na'u gwaredu. Cânt eu gwahardd rhag cymysgu'r deunyddiau wedi hynny.

Ni fydd **rheolwyr cyfleusterau llosgi a chydlogi** yn cael derbyn y deunyddiau penodol uchod a gasglwyd ar wahân yn eu cyfleusterau.

Ni fydd **rheolwyr cyfleusterau tirlenwi** yn cael derbyn y deunyddiau penodol uchod a gasglwyd ar wahân yn eu cyfleusterau. Yn ogystal â'r deunyddiau uchod a gasglwyd ar wahân, ni fydd rheolwyr cyfleusterau tirlenwi yn cael derbyn pren gwastraff yn eu cyfleusterau.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fydd yn rheoleiddio'r holl ofynion uchod heblaw'r gwaharddiad i daflu gwastraff bwyd i garthffosydd.

Awdurdodau Lleol fydd yn rheoleiddio'r gwaharddiad ar eiddo annomestig i daflu gwastraff bwyd i garthffosydd.

Pryd daw'r gofynion hyn i rym?

Er mwyn rhoi amser i fusnesau baratoi ar gyfer y newidiadau, rydym yn cynnig bod y dyletswyddau hyn yn dod i rym ym mis Hydref 2021. Fodd bynnag, wrth aros am ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, cydymgyngoriad y DU ar drosi pecyn yr UE ar yr economi gylchol a'r trafodaethau wedi hynny â Llywodraeth y DU, gallai Llywodraeth Cymru benderfynu trosi gofynion Pecyn yr Economi Gylchol trwy ddeddfwriaeth Cymru'n unig. Pe bai hynny'n digwydd, ni ddeuai'r gofyn i wneud casgliadau ar wahân na'r gwaharddiadau wedi hynny ar gymysgu papur, metel, plastig a gwydr, a'r gwaharddiadau ar dirlenwi a llosgi deunyddiau a gasglwyd ar wahân, i rym tan fis Gorffennaf 2020.

Esemptiadau

Fel ymateb i'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r trafodaethau wedi hynny â rhanddeiliaid, rydym wedi ystyried esemptiadau mewn tri maes:

- Trothwy de minimis ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff busnes - o dan hwnnw ni fydd angen rhoi gwastraff allan ar gyfer ei gasglu;
- Esemptiad i'r gofyn i gynhyrchwyr gwastraff busnes mewn ardaloedd gwledig roi gwastraff wedi'i wahanu allan;
- Esemptiad i'r gwaharddiad ar daflu bwyd gwastraff i garthffosydd os yw'r gwastraff wedi'i drin gan dechnolegau trin penodol.

Ar ôl ystyried, rydym yn cynnig esemptiad de minimis i'r gofyn i roi bwyd gwastraff allan ar gyfer ei gasglu ac i gasglu'r gwastraff hwnnw ar wahân, ar gyfer busnesau sy'n cynhyrchu llai na 5kg/wythnos o wastraff bwyd. Mae'r esemptiad hwn yn ystyried agweddau ymarferol ar gaffael gwasanaeth casglu ar wahân ar gyfer symiau bychain o

wastraff bwyd, ac mae'n adlewyrchu esemptiadau tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon^{10,11}.

Nid ydym yn cynnig esemptiadau mewn meysydd eraill. Rydym yn esbonio'n rhesymau am hyn yn yr atodiad i'r RIA.

Troseddau a Chosbau Sifil

Bydd Rhan 4 y Ddeddf, ar ôl ei gychwyn, yn creu troseddau am dramgwyddo'r gwaharddiadau ac am beidio â chydymffurfio â gofynion perthnasol adrannau newydd 45AA a 34D Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Yn yr un modd mae adran newydd 9A Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (gwahardd llosgi mathau penodedig o wastraff) yn rhoi pwerau ar gyfer creu troseddau am dorri'r darpariaethau hynny. Yn ogystal, mae pwerau ar gael i Weinidogion Cymru o dan Ran 4 y Ddeddf i roi cosbau sifil am y troseddau hyn, er mwyn gallu rhoi darpariaethau gorfodi cymesur eraill yn lle cosbau troseddol. Os bydd Gweinidogion Cymru'n dewis arfer y pwerau hyn, bydd angen gwneud un neu fwy o Orchmynion Cosbau Sifil yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoliadau a Chosbau 2008.

Pa ganlyniadau ydym ni'n eu disgwyl?

O'r opsiynau sydd wedi'u modelu yn yr RIA, yr opsiwn a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yw'r opsiwn gorau o ran y costau lefel uchel a'r amgylchedd. Bydd yn arwain at chwyldroi'r gwasanaethau casglu gwastraff ar wahân a ddarperir i fusnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru trwy:

- Gynyddu swm a nifer y deunyddiau sydd ar gael ar gyfer eu hailgylchu
- Gwella ansawdd y deunyddiau sydd ar gael i'w hailgylchu
- Sicrhau nad yw deunyddiau y gellid bod wedi eu hailgylchu yn cael eu gwastraffu
- Diogelu'r amgylchedd drwy sicrhau mai dim ond ffrydiau gwastraff gweddilliol na ellir eu hailgylchu sy'n cael eu gwaredu mewn safleoedd tirlenwi neu sy'n cael eu llosgi
- Rhoi mwy o sicrwydd y buddsoddir mewn seilwaith i ailgylchu, casglu a thrin gwastraff
- Lleihau dibyniaeth y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ar ddeunydd crai, gan drwy hynny ddiogelu cyflenwadau.

Bydd hynny'n gwneud cyfraniad allweddol at newid i Economi Gylchol yng Nghymru, sy'n un o amcanion craidd Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, yn ogystal â gwneud cyfraniad mawr at ddatgarboneiddio a chyflawni'r Nodau Llesiant.

¹⁰ *The Waste (Scotland) Regulations 2012*
<http://www.legislation.gov.uk/sdsi/2012/9780111016657/contents>

¹¹ *The Food Waste Regulations (Northern Ireland) 2015*
<http://www.legislation.gov.uk/nisr/2015/14/made>

Rhagwelir arbedion yn sgil ein cynnig o £452.5 miliwn NPV dros 10 mlynedd. Amcangyfrifir gweld 3.2 miliwn tunnell yn llai o allyriannau CO₂ a'u cyfatebol a 3.8 miliwn tunnell ychwanegol o ddeunydd eildro dros yr un cyfnod.

Bydd ein cynnig yn sbarduno datblygiad y gwasanaethau casglu gwastraff y mae busnesau'n gofyn amdano, ac mae model yr RIA yn rhagweld y bydd llawer o fusnesau'n gwneud arbedion.

Mae'r model yn amcangyfrif y bydd y busnesau sy'n cynhyrchu gwastraff yn gweld rhwng cost o £8/wythnos ac arbediad o £629/wythnos gan ddibynnu ar faint o wastraff y maent yn ei gynhyrchu.

Mae'r sector rheoli gwastraff yn sector economaidd arwyddocaol. Yn ôl adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'UK environmental goods and services sector (EGSS): 2010 to 2015', amcangyfrifir bod gweithgareddau rheoli gwastraff yn y DU yn cyfrif am £14.2 biliwn o allbwn, gwerth ychwanegol gros o £5.5 biliwn a 101,000 o swyddi amser llawn a'u cyfatebol yn 2015.

Mae'r rheoliadau felly yn rhan hanfodol o'r symudiad at Economi Gylchol yng Nghymru gan y byddan nhw'n helpu i sbarduno'r newid, yn darparu'r swyddi a'r buddsoddiad ac yn diogelu cyflenwadau adnoddau.

Bydd y cynnig yn helpu Cymru hefyd i gydymffurfio ag elfennau canlynol Pecyn yr Undeb Ewropeaidd ar yr Economi Gylchol:

- Y darpariaethau sy'n ymwneud â chasglu deunydd ailgylchadwy sych ar wahân a gwahardd ynni o'r gwastraff hwnnw (Erthyglau 10 ac 11 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff)
- Casglu biowastraff ar wahân (Erthygl 22 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff)
- Gwaharddiadau tirlenwi (Erthygl 5 o'r Gyfarwyddeb Tirlenwi).

Byddai dwyn y rheoliadau ymlaen o dan y pwerau uchod yn cefnogi hefyd nodau allweddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Yr ymrwymadau i arbed adnoddau yn y Rhaglen Lywodraethu (Symud Cymru Ymlaen), y Strategaeth Genedlaethol (Ffyniant i Bawb) a Cymru Carbon Isel
- Nodau Cynllun Gweithredu'r Economi ar gyfer twf economaidd cynaliadwy.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn arbennig ynghylch yr amcanion ar gyfer Cymru ffyniannus, cydnerth a chyfrifol yn fyd-eang.
- Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y strategaeth wastraff ar gyfer Cymru.
- Y gyllideb a'r targedau Carbon o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Polisi Adnoddau Naturiol Cymru, yn arbennig amcanion defnyddio adnoddau'n effeithlon a symud at economi fwy cylchol.
- Ymrwymiad Cymru i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, er enghraifft nod 12 'Ensure sustainable consumption and production patterns' a'u targedau cysylltiedig.

Y Camau Nesaf

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a bydd yr ymatebion yn llywio datblygiad yr offerynnau statudol a ddisgrifir uchod.

Cwestiynau

Atodiad A: Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

C1	Ydych chi'n credu bod y lefel o wahanu y gofynnir i fusnesau ei wneud yn dderbyniol? Os nad ydych, esboniwch pam a rhowch gynnig gwahanol.
Sylwadau Pellach	

C2	Ydych chi'n cytuno â'r deunyddiau sy'n cael eu cynnig? Os nad ydych, esboniwch pam.
Sylwadau Pellach	

C3	A oes isffracsiynau o'r deunyddiau penodedig y dylid naill ai eu cynnwys neu eu hepgor o'r gofyn i'w casglu ar wahân a'u cadw ar wahân (er enghraifft, papur halogedig). Os oes, nodwch pam.
Sylwadau Pellach	

--

C4	Ydych chi'n credu bod yr amserau ar gyfer paratoi ar gyfer y cynigion yn rhesymol? Os nad ydych, faint o gyfnod paratoi fyddech chi'n ei awgrymu fel arall?
-----------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Sylwadau Pellach	

C5	A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effaith ar eich sefydliad chi)?
-----------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Sylwadau Pellach	

C6	Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion i gael busnesau i ailgylchu mwy o wastraff yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?
-----------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Sylwadau Pellach	
-------------------------	--

--

C7	Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
-----------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Sylwadau Pellach	

C8	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:
-----------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Sylwadau Pellach	